# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 27 Chwefror 2017** |
| Amser: | **12.30 – 13.50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(5)2017(2)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Caroline Jones AC**<br>**Adam Price AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Gwion Evans, Head of Presiding Officer's Private Office**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau** |
| Eraill yn bresennol: | **Helena Feltham, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC.
Croesawyd Helena Feltham, Cynghorwr Annibynnol, i'r cyfarfod.

1.2 Datgan buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr.

## 2 Y strategaeth ymgysylltu â’r cyhoedd

Trafododd y Comisiynwyr bapur a oedd yn amlinellu strategaeth i gyflawni nod strategol Comisiwn y Cynulliad ym maes ymgysylltu â’r cyhoedd ar gyfer y Pumed Cynulliad, sef ‘ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo’r Cynulliad’. Yn benodol, roedd yn cynnig fframweithiau ar gyfer diffinio cynulleidfaoedd a gweithgareddau ac ar gyfer gwerthuso'r gwaith.

Trafododd y Comisiynwyr y lefelau ymgysylltu presennol, gan roi eu cefnogaeth i'r ymgyrch i ddod yn fwy effeithiol. Myfyriwyd ar y ddibyniaeth enfawr ar ymgysylltiad digidol, a mynegwyd pryder bod rhai cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu cynnwys o bosibl. Roeddent yn awyddus y dylid parhau i roi pwyslais sylweddol ar ryngweithio wyneb yn wyneb, yn ogystal â thargedu deunyddiau i ddenu sylw'r 'gynulleidfa gyfan' waeth beth yw lefelau eu gwybodaeth.

Trafodwyd Senedd.tv, a chydnabu'r Comisiynwyr bwysigrwydd y cyngor a'r argymhellion a fyddai'n dod oddi wrth y Tasglu Digidol yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Cafodd y Comisiynwyr drafodaethau eang am ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd yng Nghymru, gan gynnwys ffyrdd a gynigir gan newidiadau ym maes technoleg a chyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill. Dywedodd y Llywydd hefyd fod mwy o ymdrech yn cael ei gwneud i sefydlu perthynas â sefydliadau a chyrff academaidd, fel y Gymdeithas Ddysgedig.

Cadarnhaodd y Comisiynwyr eu bod yn cefnogi'r strategaeth ymgysylltu ddrafft a bod y cynllun gwaith yn adlewyrchu eu blaenoriaethau ar gyfer ymgysylltu.

## 3 FySenedd

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Comisiynwyr am y rhaglen FySenedd, a sefydlwyd i sbarduno a chyflawni elfennau pwysig o strategaeth y Comisiwn.

Trafododd y Comisiynwyr nod cyffredinol y rhaglen a sut mae'n datblygu. Trafodwyd yr angen sylfaenol i ddata gael eu rheoli mewn modd sy'n golygu eu bod yn ddefnyddiol. Roeddent hefyd yn cydnabod bod angen newid diwylliant yn ogystal â newid technolegol er mwyn darparu gwasanaethau busnes y Cynulliad sydd mewn gwell sefyllfa i gefnogi'r Cynulliad i fod yn senedd agored, ddigidol o'r radd flaenaf.

Roedd y Comisiynwyr yn cefnogi amcanion y rhaglen a'r dull a fabwysiadwyd er mwyn ei rhoi ar waith. Roeddent yn cydnabod y bydd rhaglen FySenedd yn gyfrwng allweddol i helpu i wneud y newid sylweddol sydd ei angen i gyflawni amcanion y Comisiwn o ran ymgysylltu â'r cyhoedd, ac argymhellion y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 6 Chwefror

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad ar 6 Chwefror. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr.

Roedd y manylion yn cynnwys bodlonrwydd y Pwyllgor â'r gwaith proffesiynol sy'n cael ei wneud ym maes Archwilio Mewnol; seiberddiogelwch a'r gwaith sy'n cael ei wneud i gryfhau'r hwn; y system gyllid newydd; ac archwiliad trylwyr o faterion yn ymwneud ag adeiladau a swyddfeydd. Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi cymryd rhan mewn sesiwn arbennig gyda Roger Scully, gan ystyried materion yn ymwneud â gadael yr UE, Deddf Cymru a gallu'r Cynulliad i ymdopi â'i lwyth gwaith.

## 5 Unrhyw fater arall

Rhoddodd y Llywydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am waith yn ymwneud â Senedd Ieuenctid a'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol.

### 5.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Senedd Ieuenctid

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf grŵp llywio'r Senedd Ieuenctid ddydd Llun 13 Chwefror.

Y camau nesaf fydd ystyried sut y dylai'r Senedd Ieuenctid weithio gyda'r Cynulliad - o ran ei pherthynas ag Aelodau a phwyllgorau, ac o ran trefniadau llywodraethu.

Y bwriad yw gallu ymgynghori ar fodel o gyfansoddiad drafft ar gyfer Senedd Ieuenctid ar ôl toriad y Pasg.

### 5.2 Aelodaeth o'r Bwrdd Pensiynau

Cadarnhaodd y Llywydd y newid o ran yr aelod o'r Bwrdd Pensiynau a enwebwyd gan y Comisiwn, o Suzy Davies i Joyce Watson. Roedd y Comisiynwyr eisoes yn ymwybodol o'r newid, a rhoddwyd cadarnhad fod y llythyr ffurfiol wedi'i anfon at y Bwrdd Taliadau ar 16 Chwefror.